



Social Co-operation Forum
Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol

Sefydlu mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr

Wrth sefydlu unrhyw fenter gydweithredol, y drefn arferol yw “ewch amdani”. Rhaid i’r darpar aelodau gymryd rheolaeth. Ond bydd yn werth cael rhywfaint o gyngor ar sut i wireddu eich syniadau.

Y cam cyntaf yw nodi angen neu ddyhead gan grŵp o bobl. Heb hynny, ni fydd diben cyffredin i gynnal y fenter dros yr hir dymor. Ni fydd sefydlu menter gydweithredol ac yna ceisio pennu nod yn gweithio.

Bydd angen crynhoi grŵp a thrafod gyda nhw os allech elwa o ddod ynghyd fel grŵp cydweithredol. Er enghraifft:

- Trafod gyda’r bobl eraill yn defnyddio’r un gwasanaeth. A fyddai modd cyflwyno mesurau i wella (neu ddiogelu) gwasanaeth o’i redeg eich hun?
- Cynnal cyfarfod agored mewn canolfan gymunedol leol i weld os ydych chi ac eraill yn rhannu dyhead i wella’r gymuned.
- Hysbysebu’r cyfarfod wrth osod posteri a nodi ar wefannau cymunedol, ayyb..
- Gall y cyrff a nodir yn y ffeil ffeithiau hon awgrymu sut i gysylltu ag eraill a chynnal cyfarfodydd effeithiol.

Yn y cyfarfodydd bydd angen nodi rhai canlyniadau byddwch am weld. Os yn nodi amcanion cyffredin a diddordeb gennych mewn cydweithio i’w gwireddu, yna bydd plattform da i weithio arno.

Wedyn byd angen datblygu cynllun manwl. Bydd angen ateb ac esbonio’r dilynol:

- Beth fydd gwaith y fenter?
- Pwy fydd yn cyfrannu a beth yw diben y fenter?
- Yw’r syniad yn gwneud synnwyr ariannol? Hynny yw, fydd yr incwm yn talu’r costau?
- Pwy fydd yn defnyddio’r gwasanaeth? Oes cystadleuaeth yn y maes?
- Pa drefn gyfreithiol fydd orau i’r fenter?

Efallai bydd y pwynt olaf yn achosi pryder, ond gydag ychydig o gymorth ni ddylai fod yn rhy galed.

Dim ond un rhan o'r darlun yw mabwysiadu'r drefn gyfreithiol iawn. Bydd angen cynnwys gwerthoedd ac egwyddorion mentrau cydweithredol yn y cyfansoddiad.

Cyngor ymarferol

1. Pennu eich trefn gyfreithiol. Cyn dechrau cyflogi pobl, awgrymwn yn gryf eich bod yn sefydlu corff corfforedig, er cyfyngu atebolrwydd yr aelodau a chyfarwyddwyr. Mae'n debyg bydd angen cymorth gyda hynny.
2. Sefydlu cyfrif banc yn enw'r fenter. Efallai byddwch am ddefnyddio banciau arbenigol fel **Co-operative Bank**, **Triodos** neu **Unity Trust** sy'n cynnig cyfrifon cyfredol, ond mae'r rhan helaeth o'r banciau stryd fawr yn gwneud hynny.
3. Bydd **cyfarwyddwyr** a swyddogion eraill, yn cynnwys **ysgrifennydd** y fenter yn chwarae rolau penodol, ac yn destun cyfrifoldebau cyfreithiol. Mynnwch gyngor cyn dechrau.
4. Penodi archwilydd neu swyddog ariannol annibynnol os gelwir am hynny yn eich dogfen reoli. Bydd angen dilyn gofynion eich **cwmni** neu **gymdeithas**.
5. Trefnu gwaith papur eich menter gan sicrhau bod y manylion corfforaethol yn gywir.
6. Sefydlu a chynnal cofrestrau statudol eich menter e.e. cofrestrau aelodau, cyfarwyddwyr, ayyb..
7. Ystyried yswiriant ar gyfer y fenter. Os yn cyflogi pobl, rhaid cael yswiriant atebolrwydd cyflogwyr.
8. Ystyried presenoldeb eich menter ar y we. Gallwch gael enw parth .coop am ddim am y flwyddyn gyntaf.
9. Mapio blwyddyn waith eich menter a'r gwaith llywodraethu ee nodi diwedd eich blwyddyn ariannol, dyddiad y cyfarfod cyffredinol blynyddol a dyddiad ffeilio eich cyfrifon.

● Dyletswyddau swyddogion allweddol?

Yn eich grŵp, bydd pobl gyda sgiliau a phrofiad gwahanol a allai awgrymu rolau penodol.

Rhaid i'r cyfarwyddwyr ymddwyn yn gyfrifol a moesegol, gan gynnal diddordebau'r fenter ar bob amser. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro rhwng diddordebau eu hunain a rhai'r fenter.

Rhaid i fenter gydweithredol benodi ysgrifennydd – gyda swyddogion eraill yn opsiynol. Bydd yr ysgrifennydd yn chwarae rôl allweddol yn y fenter, ynghyd â swyddogion eraill fel y cadeirydd a'r trysorydd, wrth gynnal a chofnodi cyfarfodydd a'r cyfrifon yn gywir.

● Ble i gael cymorth?

Mae lot o help ar gael, a'r rhan helaeth am ddim.

Busnes Cymdeithasol Cymru

<https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy>

Gwasanaeth cymorth o Lywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, yn cynnig cyngor am ddim.

Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs)

www.wcva.org.uk/funding/advice/cvcs?seq.lang=cy-GB

Gwasanaethau ym mhob awdurdod lleol, yn helpu grwpiau i sefydlu mentrau cymdeithasol.

Co-operatives UK

www.uk.coop

Corff mentrau cydweithredol ar draws y Deyrnas Unedig, sy'n cynnig cyngor a chymorth i bob math o fentrau cydweithredol.

Anabledd Cymru

www.disabilitywales.org/cy/

Enghreifftiau gwych o sut mae mentrau cydweithredol yn gallu cefnogi ac ysbrydoli pobl.

Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol

c/o **www.cymru.coop**

Rhwydwaith o bobl a chyrrff sy'n cefnogi dulliau cydweithredol o ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth ac yn ceisio dylanwadu ar bolisiau ar ran yr aelodau.

Cymorth Busnes Cymdeithasol

www.socialfirmswales.co.uk

Corff yn cynrychioli mentrau cymdeithasol sy'n ceisio creu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl anabl.

Awdurdodau Lleol

www.wlga.gov.uk/awdurdodau

Bydd eich cynghorwr lleol yn gallu eich cyfeirio at y swyddogion cymwys.

Canolfan Cydweithredol Cymru

www.cymru.coop

Cyngor un i un, hyfforddiant cyffredinol a gwybodaeth drwy raglen newydd yn a dechreuodd ym mis Ebrill.

WCVA

www.wcva.org.uk/advice-guidance

Corff ymbarél cyrff gwirfoddol yng Nghymru.